

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 42 Hydref 20, 2022 50c.

Gwerthfawrogi 20 mlynedd o arweiniad y Parchedig Owain Llŷr Evans

Wedi dwy flynedd o fethu cynnal ein gŵyl flynyddol, 'roedd trydydd Sul mis Medi eleni yn ddydd o 'lawen chwedl' i ni fel eglwys wrth ein bod yn cael cyfle i ddiolch i Dduw am 20 mlynedd o fod dan arweiniad a gweinidogaeth y Parchedig Owain Llŷr Evans.

Nododd Owain Llŷr y garreg filltir hon mewn modd arbennig ac unigryw yn ystod yr oedfa foreol ... gyda phregeth 20 pen! Gan fras ddilyn yr wyddor (gydag ambell eithriad!) bu iddo ein tywys drwy yr hyn a nodweddai'r cydweithio, cydaddoli a chyd-dystio a fu rhyngom fel eglwys a bugail dros yr 20 mlynedd: Amddiffyn ac arweiniad; Braint; Cariad; Deall; Dal-i-fynd-rwydd; Ffydd; Gwarchod; Hynt a helynt; Iesu yn y



canol; Meddwl; Nesáu; Pwyll ac amynedd; Anwydeb; Rhannu; Sancteiddrwydd; Tynnu ein pwysau; Estyn cymorth; Undod; Wyneb yr Arglwydd; ac Ystyried. Yna, un pen ychwanegol – Diolch! Diolch am yr hyn a fu, diolch am yr hyn sydd a diolch am yr hyn sydd eto i ddod wrth ein bod, yn gyfysgwyrdd â'n gilydd, yn cerdded ymlaen yn ffyddiog mewn diolch, ffydd a gobaith i ogoneddu ein Harglwydd Iesu Grist.

Cymdeithasu

Daeth cyfle ar ôl yr oedfa foreol, dros gymdeithas, cwpaned o de, danteithion blasus a chacen arbennig, i ddatgan ein gwerthfawrogiad o weinidogaeth ddisglair ein gweinidog. Bethan Jones, ysgrifennydd yr eglwys, fu'n enau agoriadol i ddiolchgarwch yr eglwys: 'mae pob un ohonom, o'r ieuengaf i'r hynaf, i ddefnyddio un o hoff ymadroddion y gweinidog, yn gwybod yn iawn am ei weinidogaeth llawn bendith, ei gyfeillgarwch, ei allu a'i ddoniau niferus ac eang.' Ac wrth sôn yn benodol am y 30 mis diwethaf yn dilyn y



penderfyniad anorod 'nôl ym mis Mawrth 2020 i hepgor, am y tro, pob gweithgaredd yn y capel, atgoffwyd pawb o'r ddwy daflen oedfa a ddsbarthwyd ar ddechrau'r cyfnod ... ac am y 60 taflen ddilynol, ynghyd â thafleuni gweddi ychwanegol, fu'n fodd i sicrhau ein bod, hyd yn oed pan nad oedd modd 'dod' i'r capel, yn medru cyd-addoli dan arweiniad ein gweinidog. Cyflwynodd Eleri Morgan, un o ddiaconiaid yr eglwys, gywydd o waith Llŷr Gwyn Lewis (un o'n diaconiaid sydd bellach hefyd yn brifardd ond a oedd yn methu bod yn bresennol). Cywydd oedd hwn a oedd yn cwmpasu holl waith a doniau Owain Llŷr yn ein plith ac yn crynhoi gwerthfawrogiad y gynulleidfa gyfan am ei arweiniad dros yr 20 mlynedd.

parhad ar dudalen 2

Penodiad

Y mae'n llawenydd datgan bod y Parchg Carwyn Siddall, Llanuwchllyn wedi ei apwyntio fel Cydlynnydd Hyrwyddo Gweinidogaethau yr Undeb. Rydym yn ei longyfarch yn fawr ac yn dymuno bendith Duw arno a phob llwyddiant ar ei waith. Swydd rhan amser fydd hwn iddo gan ei fod yn parhau â gofal ei eglwysi ym Mhenllyn, Meirionnydd. Y mae Carwyn yn berson adnabyddus iawn yn ein plith, yn weinidog egniol a chydwybodol ac yn un parod ei gymwynas i'r Undeb, wedi gwasanaethu fel swyddog Adran Tystiolaeth ac Adran Eglwysi a'u Gweinidogaeth ac ar y Pwyllgor Gweinyddol. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at dderbyn ei wasanaeth a'i arweiniad.



Gwerthfawrogi 20 mlynedd o arweiniad y Parchedig Owain Llŷr Evans – parhad

Braint ac anrhydedd

Cafwyd cwmni cyfeillion o nifer o eglwysi Cymraeg y ddinas yn yr oedfa hwyrol. Y Parchedig Jill-Hailey Harries, cyn-Lywydd yr Undeb oedd ein cennad gwadd a chyfeiriodd ein sylw tuag at Sardis a'r angen i ddefro (Datguddiad 3:1-6). Mewn cymdeithas gyd-eglwysig yn dilyn y daeth y Sul arbennig iawn hwn yn hanes eglwys Minny Street i'w derfyn. Cawsom gyfle i ddiolch am weinidogaeth ysbrydoledig ein Gweinidog, i ailgysegru ein hunain fel gweithwyr i'n Harglwydd a throsto, yn y flwyddyn waith newydd, ac i sylweddoli'r fraint a'r anrhydedd, a'r ddyletswydd, a ddaw i ni o gael ein galw'n Ddisgyblion Crist.

Bethan Jones

Owain

Un dyn yw hwn, ond yn naws Owain, y mae 'na liaws: Owain sy'n ddegau lawer. Owain yr hwyl, Owain yr her, Owain gain, neu fel y gog; ei wên, a'i ddadl finio.

Digymar ddyfeisgarwch, a'r dycnwch llwyr sy trwy'r trwch, y brêns a'r dyfalbarhau yw Owain a'i holl liwiau. Owain ddawnus wyddonydd ddeisectia fformiwlâ'n ffydd; gŵr hoff o'i wasgod a'i gryd, Owain y torchwr llewys, a'r llenor all greu lluniau byw, rhwydd, o'n crefyddu brau.



Owain ddoeth, Owain ddedol, Owain ddwl iawn, neu ddi-lol, Henadur cri'r weddi wâr, a hogyn y teis lliwgar. Owain friliant â'r plantos, Owain wych yr oedfa nos, Owain hefyd y nofiwr bob dydd yn wyneb y dŵr.

Owain ffaeledig ddigon, yn un o bawb yn y bôn, ond i Owain, y duwiol drwy'r heriau i gyd ydi'r gôl; llawn dwyster a her a hwyl yw'n hynod Owain annwyl.

Gall daro a'n llorio'n llwyr, nid â'i sŵn, ond â'i synnwyr: Owain y gras a'r rasel, y gair mân a'r dagrau mêl, yr 'Amen' hir, a'r mwynhad, y gair ysgafn sy'n groesgad.

Owain y gwaith diddiwedd, driw i bawb o'u crud i'r bedd, pob un o'r rhain, Owain yw o hyd. Ein Owain ydyw, a braint yw, i bawb o'r rhain, rhoi'n diolch i'n ffrind, Owain.

Llŷr Gwyn Lewis

Myfyrdod o'r Beibl: Diolchgarwch

'Oddi uchod y daw pob rhoi da a phob rhodd berffaith. Disgyn y maent oddi wrth Dad goleuadau'r nef; ac iddo ef ni pherthyn na chyfnewid na chysgod troadau'r rhod.'

(Iago 1:17)

Mae hi'n dechrau oeri a thywyllu'n gynnar ac mae'r dail euraid wedi cychwyn



disgyn o'r coed. Mae tymor yr Hydref wedi'n cyrraedd. Yn ystod y mis hwn, bydd ein heglwysi yn cynnal cyfarfodydd diolchgarwch er mwyn diolch i Dduw am bopeth mae wedi'i ddarparu ar ein cyfer.

Yn ein byd gorllewinol cyfoethog, mae'n hawdd cymryd pethau'n ganiataol – y bywyd sydd ar ein byrddau, y dŵr sydd yn ein tapiau, y dillad sydd yn ein cypyrddau, y gwres sydd yn ein rheiddiaduron. Mae'r Beibl yn ein dysgu, er hynny, mai rhodd yw popeth da yr ydym yn ei fwynhau mewn bywyd. Rhodd gan Dduw ein Creawdwr a'n Cynhaliwr.

Yn ei lythyr yn y Testament Newydd, mae'r Apostol Iago'n datgan mai 'oddï uchod y daw pob rhoi da a phob rhodd berffaith' (Iago 1:17a). Hynny yw, Duw yw'r un sy'n darparu'r holl roddion yr ydym yn eu mwynhau mewn bywyd. Nid

twyllwr anonest ac amheus yw ef sy'n newid ei feddwl bob hyn a hyn, ond ef yw'r Duw tadol sy'n oleuni pur a digyfnawid: 'Disgyn y maent oddi wrth Dad goleuadau'r nef; ac iddo ef ni pherthyn na chyfnewid na chysgod troadau'r rhod' (1:17b).

Ein lle ni yw byw ein bywydau mewn diolch i Dduw. Fe sydd wedi'n creu ni yn y lle cyntaf ac fe sy'n ein cynnal ni bob dydd trwy ein galluogi i anadlu. Fe sy'n caniatáu i'r cynydu dyfu fel bod bywyd yn ein hoergelloedd. Fe sy'n galluogi i'r cymylau lawio fel bod dŵr yn ein cronfeydd.

Er hynny, mae gennym reswm pwysicach i ddiolch i Dduw na hyd yn oed y rhai uchod. Nid yn unig y mae Duw wedi'n creu a'n cynnal ond mae hefyd wedi gwneud ffordd i ni, er gwaetha ein pechod a'n gwrthryfel, i fod yn ffrindiau iddo. Gwnaeth hyn yn y ffordd fwyaf ryfeddol! Gwnaeth hyn trwy anfon ei fab Iesu Grist i'r byd i farw dros ein pechodau ac atgyfodi'n fyw. Heddiw, mae'n ein gwahodd ni i edifarhau a chredu yn Iesu er mwyn derbyn maddeuant a bywyd yn rhodd rad ganddo. Diolch iddo yn wir!

Cwestiynau:

1. Pam ein bod yn gallu cymryd pethau mor ganiataol yn ein byd gorllewinol?
2. Pam fod Duw yn haeddu'n diolch heddiw?

Gwilym Tudur

Hywel Mudd: newid cyfeiriad


Dyma fanylion newydd y Parchedig Thomas Howell Mudd, sef:
13 Llys Sant Ioan,
Caerfyrddin. SA31 1ET.
Rhif ffôn: 01267 220 128,
E-bost tom.mudd189@btinternet.com

Yr Adran Gydenwadol

Hoff Emynau'r Cymry, gol. Robert Nicholls (Cyhoeddiadau'r Gair, pris: £9.99)

Dros gyfnod yr haf, gofynnodd golygyddion *Cenn@d* i nifer o bobl sôn am eu hoff emynau, a hynny fel paratoad ar gyfer cyfrol newydd a oedd ar ei ffordd o'r wasg. Diolch i bawb a gyfrannodd at y gyfres hon yn *Cenn@d*.

Erbyn hyn cyhoeddwyd y gyfrol honno gan Gyhoeddiadau'r Gair, sef *Hoff Emynau'r Cymry*. Casglwyd y cynnwys ar gyfer y gyfrol gan Robert Nicholls, ac o fewn ei chloriau mae 64 o Gymry adnabyddus yn dewis eu hoff emyn, gan nodi'r rheswm dros y dewis. Mae'r gyfrol bellach yn y siopau, ac ar gael am £9.99. Dyma anrheg Nadolig perffaith i frindiau a theulu.



Wrth gyflwyno'r gyfrol, meddai'r awdur:

Buont hwy yn canu uwch fy nghrud,
Uwchben fy machgendod a'm
hieuentid,
Fel côr o adar Cristionogol.

'Dyna eiriau agoriadol Gwenallt yn ei gerdd "Yr Hen Emynau", ac rwy'n siŵr fod llawer yn gallu tystio ac uniaethu â'r geiriau. Heb os, mae gan yr emyn a'r emyn-dôn le amlwg a blaenllaw yn ein traddodiad llenyddol a cherddorol fel cenedl, ac nid ystrydeb fyddai dweud lle bynnag y bydd Cymry'n cyfarfod â'i gilydd bydd canu emynau yn dilyn yn aml.

'Mae poblogrwydd ein hemynau i'w weld o fewn repertoire ein corau niferus. Er hynny, gyda chynifer o gapeli ac eglwysi'n cau a lleihad sylweddol yn nifer y cymanfaoedd canu a gynhelir, beth fydd dyfodol ein canu cynulleidfaol yn yr unfed ganrif ar

hugain, tybed? Wrth gyfeirio at gyflwr canu cynulleidfaol yng Nghymru yn 1955, ysgrifennodd John Hughes fel hyn yn ei ragair i adran y gerddoriaeth yn *Y Llawlyfr Moliant Newydd*:


Ond daeth trai ar ymroddiad yr eglwysi, a chollwyd llawer o'r diddordeb a welwyd gynt ynglŷn â'r rhan hon o'r gwasanaeth crefyddol, ac aeth yr Ysgol Gân yn beth pur ddieithr yn yr eglwysi.

'Os oedd hynny'n wir yn 1955, mae'r sefyllfa wedi gwaethgu'n enbyd erbyn hyn! Ond rhaid peidio â digaloni'n llwyr, a'n gwaith a'n dyletswydd yn wir yw ceisio cadw'r fflam ynghyn tra byddom. Brwydrwn i gadw, meithrin a diogelu'r ddawn brin sydd gennym fel Cymry tuag at ganu cynulleidfaol, a thrwy hynny sicrhau parhad rhan bwysig, gyfoethog o'n hetifediaeth gerddorol a llenyddol i'r cenedlaethau a ddaw.

'Rwy'n ddiolchgar i Aled Davies, Cyhoeddiadau'r Gair, am y gwahoddiad i lunio'r gyfrol hon ac am fod mor amyneddgar wrth ddisgwyl am ei hymddangosiad. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu gyda'u hoff emyn a rhannu profiadau personol wrth wneud. Synnais at yr amrywiaeth o emynau a ddewiswyd; yn wir, ychydig iawn o "ailadrodd" a gafwyd o gwbl, a phan ddigwyddodd hynny roedd stori ac atgof pawb wrth reswm yn wahanol ac yn unigryw iddyn nhw eu hunain. Gobeithio bod eu profiadau hwythau o ddiddordeb a bendith i'r sawl sy'n darllen. Braint yn bersonol oedd cael rhannu un o'm hoff emynau gan Williams Pantycelyn, a phwy'n well na'r Pêr Ganiedydd ei hun i grisialu'r dyhead o greu "nef y nefoedd yn gân heb ddiwedd byth".

Fel esiampl o gynnwys y gyfrol, dyma gyfraniad yr awdur ei hun:

Robert Nicholls – Brodor o Benclawdd; addysgwyd yn Ysgol Tre-gŵyr a Choleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Yn organydd ac yn arweinydd corawl adnabyddus yng Nghymru a thu hwnt, sefydlodd Gôr Meibion Taf yng Nghaerdydd yn 2004. Mae wedi arwain Cymanfa Ganu Genedlaethol Awstralia bum gwaith ac wedi ymddangos fel organydd swyddogol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn aml, gan gyfeilio i brif seremoniau'r Orsedd a'r Gymanfa Ganu Genedlaethol. Bu'n Olygydd Cynnwys Diwylliant S4C a Chyfarwyddwr Tŷ Cerdd – Music Centre Wales. Wedi iddo deimlo'r



alwad i'w gyflwyno'i hun i'r weinidogaeth Gristnogol, bellach, ers mis Tachwedd 2015, mae'n weinidog ar Eglwys Gymraeg Canol Llundain, eglwys gydenwadol sy'n cyfarfod yn Eastcastle Street, Oxford Circus.

Pan ofynnwyd i mi baratoi'r gyfrol hon ac fel rhan o'r broses cael cyfle i ddewis fy hoff emyn, rhaid cyfaddef fy mod wedi cael traferth eithriadol a hynny'n bennaf oherwydd bod cynifer ohonynt! Mae'n debyg iawn i orfod dewis hoff ddarn o farddoniaeth neu gerddoriaeth, ac rwy'n siŵr bod llawer yn dibynnu ar deimladau personol ar y pryd – mae adegau o lawenydd, tristwch neu hiraeth yn gallu dylanwadu ar y dewis.

Wrth feddwl am ddyddiau plentyndod a'm magwraeth ym Mhenclawdd, un o'r emynau cyntaf i mi gofio ei ddysgu ar y cof oedd 'Dod ar fy mhen dy sanctaidd law, O dyner Fab y Dyn'. Roedd yn ffefryn mawr yn yr ysgol gynradd, yr Ysgol Sul a'r Gymanfa Ganu flynyddol adeg y Sulgwyn. Geiriau sy'n anodd i blentyn eu deall a'u dirnad, ond geiriau sydd wedi aros gyda mi ar hyd fy oes. Daw ambell linell o'r emyn yn ôl i'r cof o bryd i'w gilydd, a meddyliaf yn aml am linellau fel 'gwna fi yn hoff o wrando cwyn a hoff o faddau bai / ... fel bo i eraill drwof fi adnabod cariad Duw'. Yn sicr mae'r emyn hwn yn dwyn atgofion melys o ddyddiau cymanfaoedd yn y tri chapel ym Mhenclawdd – Y Tabernacl, Bethel a Trinity.

Un arall a'm swynodd pan oeddwn yn yr ysgol uwchradd yn Nhre-gŵyr oedd yr emyn Saesneg 'He who would valiant be ... / Let him come hither', a'r pennill hwnnw sy'n sôn am 'Hobgoblin nor foul fiend' yn peri syndod a rhyfeddod bob amser! Daw eraill i'r cof yn syth, megis 'Hoff yw'r Iesu o blant bychain' ac 'O! rwyf yn hoffi canu, / Canu â chalon iach' gyda'r gytgan swynol yn newid amseriad o 2/2 i 6/8: 'Canaf, mi ganaf, / Hosanna a seiniaf, / Yr Iesu a folaf hyd derfyn fy oes'.

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Hoff Emynau'r Cymry, gol. Robert Nicholls

(parhad o dudalen 1)

Mae cymaint o emynau yn dwyn atgofion am resymau amrywiol; yn aml mae'r dôn yn apelio'n fwy na'r geiriau, a sôn am 'hoff dôn' fyddwn ni'n aml yn hytrach na hoff emyn, rwy'n siŵr. Ond mae un emyn a thôn yn dal i atseinio yn fy meddwl o hyd, ac rwy'n cofio eu canu ym Methesda, Abertawe, a'r Tabernacl, Penclawdd – y ddau gapel a fu cymaint o ddylanwad arnaf yn ystod blynyddoedd fy ieuenctid, a hwnnw yw'r emyn 'O tyred, lôr tragwyddol, / mae ynot ti dy hun / fwy moroedd o drugaredd / nag a feddylodd dyn'. Y geiriau gan Williams Pantycelyn a'r dôn 'Whitford' gan John Ambrose Lloyd. Y ddau yn cynrychioli'r gorau o'n traddodiad emynyddol a cherddorol, yn fy marn i.

Rwy'n cofio hefyd clywed datganiad eneiniedig o'r emyn a'r dôn ar hen record finyl 'Great Hymns of The Welsh Revival' a recordiwyd yng Nghapel Penuel, Llanllechid, gyda Dr Terry James yn arwain, a'r pregethwr a'r Prifardd William Morris yn rhoi anerchiad byr ar y cychwyn yn sôn am ei brofiad personol ef o ddiwygiad crefyddol 1904. Canu gwych ac ysbrydoledig yn wir!

O tyred, lôr tragwyddol,
mae ynot ti dy hun
fwy moroedd o drugaredd
nag a feddylodd dyn:
os deui at bechadur,
a'i godi ef i'r lan,
ei galon gaiff, a'i dafod,
dy ganmol yn y man.

Gwaredu'r saint rhag uffern
a phechod drwg ei ryw,
o safn y bedd ac angau,
a'u dwyn i fynwes Duw,
eu harwain dros fynyddoedd,
a thrwy yr anial chwith,
a grea nef y nefoedd
yn gân heb ddiwedd byth.

William Williams, 1717–91
Caneuon Ffydd, 316

Emyn: 'O tyred, lôr tragwyddol'

Rhan o gerdd hir William Williams, Pantycelyn (gweler adran yr Emynwyr), *Bywyd a Marwolaeth Theomemphus*, oedd yr emyn hwn yn wreiddiol; fe'i cyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1764.

Tôn: 'Whitford'

Cyfansoddwyd y dôn gan John Ambrose Lloyd (gweler adran y Cyfansoddwyr) a'i chyhoeddi am y tro cyntaf yn ei gasgliad o donau *Aberth Moliant* (1873). Pentref yn Sir y Fflint, sir enedigol Ambrose Lloyd, yw Chwittfordd. Roedd yn hoff o enwi tonau ar ôl pentrefi a threfi ei ardal enedigol ynghyd ag ardaloedd eraill, e.e. Abergele, Wyddgrug, Bryn-teg a Wynnstay.

Y Brawd Andrew (1928–2022)



Llun: https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Anne_van_der_Bijl.jpg#/media/File:Anne_van_der_Bijl.jpg

Yn ddiweddar daeth y newyddion fod y cymeriad arbennig hwnnw oedd yn adnabyddus fel y Brawd Andrew ar draws y byd wedi marw ar 27 Medi. I'r rhai ohonom sy'n cofio dyddiau'r Rhyfel Oer, pan oedd comiwnyddiaeth yn rheoli hanner dwyreiniol cyfandir Ewrop, roedd hynt a helynt y dyn hwn yn ysbrydoliaeth arbennig.


Fe'i ganed yn yr Iseldiroedd i deulu tlawd, ac o'r dechrau roedd ganddo ryw ysfia i chwilio am antur. Er y fagwraeth Gristnogol a gafodd roedd yn aml mewn trwbl, a chydai'i addysg wedi ei thorri'n fyr oherwydd y rhyfel, erbyn iddo gyrraedd yr oed i chwilio am waith ymunodd â'r lluoedd arfog er mwyn chwilio am ei antur draw yn Indonesia, lle roedd yr Iseldiroedd yn ceisio dal gafael ar eu hymerodraeth. Wedi tymor gwyllt yno, fe'i hanafwyd a bu'n rhaid iddo fynd adref heb brofi'r llwyddiant a chwenychai. Daeth dan argyhoeddiad dwfn o'i bechod, a chan droi yn ôl at ei Feibl fe ymddiriedodd yng Nghrist am faddeuant.

Ond doedd y ffaith iddo ddod yn Gristion ddim wedi newid ei barodrwydd i fentro. Trwy amrywiol ffyrdd profodd alwad i fynd yn genhadwr. Ond yn hytrach na mynd draw i bellteroedd byd, fe ddaeth y cyfle iddo fentro i Ddwyrain Ewrop. Yno fe welodd yr angen am gynorthwyo'r eglwysi, a dechreuodd ar ei waith mawr. Un angen amlwg gan yr eglwysi oedd yn profi erledigaeth gan y Comiwnyddion oedd yr angen am Feiblau. Felly dechreuodd gario Beiblau draw i Ddwyrain Ewrop – a dyna sut y daeth i gael ei adnabod fel 'God's Smuggler'. Mae ei anturiaethau a'r profiadau arbennig gafodd o Dduw fel petaent yn dallu llygaid yr heddlu i'r cyfan roedd yn ei gludo ar draws ffiniau wedi bod yn ysbrydoliaeth i lawer, ac mae'r llyfr *God's Smuggler* yn parhau i fod yn glasur gwerth ei ddarllen. Yn wir, pan ddaeth y cyfle i minnau fentro i'r gwledydd comiwnyddol i gynorthwyo'r eglwys yno, roedd ei hanes yn rhan fawr o'r anogaeth i mi.

Ond mae'n hawdd iawn meddwl am yr anturiaethau. Beth am y dyn ei hun? Y peth cyntaf amlwg amdano oedd ei gariad at bobl. Roedd yn gweld pawb fel unigolion y gallai gras Duw drawsnewid eu bywydau. P'un a oedd yn siarad ag arweinydd bydenwog megis Henry Kissinger neu ffoadur mewn gwersyll, roedd yn barod i geisio egluro cariad Duw yng Nghrist iddyn nhw. Yn wir, pan gefais gyfarfod ag ef, roedd yn ceisio cael ffordd i gyfarfod Osama Bin Laden er mwyn rhannu'r efengyl ag o. Yn ail, roedd yn argyhoeddedig mai neges y Beibl oedd yr unig ffordd i bobl brofi gras Duw. Dyna pam, wedi dymchwel mur Berlin a'r chwyldro yn Wdyrain Ewrop, y trodd ei sylw tuag at y byd Mwslimaidd i sicrhau Beiblau i'r gwledydd hynny. Yn drydydd, fe weithiai nid yn unig i rannu Beiblau, ond hefyd i leddfu dioddefaint ffoaduriaid a Christnogion oedd yn cael eu herlid.

Dyma un oedd yn credu ac yn gweithredu ar sail y gred honno, a'i ffydd yn esiampl a her i ni holi ein Harglwydd unwaith eto: "Pa beth a fynni di i ni ei wneuthur?"

Dafydd Job





4 Bendithion Abraham, ein bendithion ni Darlleniad – Hebraeid 11: 8–12, 17–19

Wrth inni baratoi i symud at yr hanesion am Abraham yn Genesis, rydym am dreulio'r sesiwn yma'n edrych ar yr hyn oedd ymhlwg yn y fendith i Abraham, yn arbennig gyda golwg ar sut y mae'r rhain yn gysgod o'r bendithion yr ydym ni yn eu derbyn. Fe gofiwch fod yr addewid cyntaf am fendith yn adnodau 2–3 o bennod 12: 'Gwnaf di yn genedl fawr a bendithiaf di; mawrygaf dy enw a byddi'n fendith. Bendithiaf y rhai sy'n dy fendithio, a mellithiaf y rhai sy'n dy felltithio, ac ynot ti bendithir holl dylwythau'r ddaear.'

Yn ei alwad mae Duw yn rhoi amryw addewidion i Abraham ac, fel yn ein hanes ni, er nad yw Duw yn ateb cwestiynau fel 'Pam?' neu 'I beth?', mae ei addewidion yn sicr. Yn gyffredinol cawn ddau fath o addewid – y rhai sy'n addewidion diamod, a'r addewidion amodol. Mae'r addewid na fydd Duw yn ein gadael yn un diamod, tra mae addewid fel 'rhowch ac fe roddir i chi' yn amodol. Yn achos Abraham, mae'n derbyn addewid o fendith oedd yn amodol ar y dechrau ond yn ddiweddarach mae'n ddiamed, e.e. mae'r addewid am fod yn genedl fawr yn amodol ar ufudd-dod Abraham ym mhennod 12, ond ym mhennod 15 mae'r addewid am gael Duw yn darian (adn. 1), cael mab (adn. 4) a'r wlad (adn. 7) yn ddiamed.

Fel yr awgrymais eisoes, yn gyntaf mae yna addewid o fendith gyda golwg ar y tir. Mae pennod 12:7 yn dweud y bydd Duw yn rhoi gwlad iddo. Fel y gwelwch o'r darlleniad yn yr Hebraeid, mae yna fwy i'r fendith yma na'r hyn sydd yn Genesis, gan fod y wlad yn gysgod o'r wlad nefol y bydd Duw yn fendithio pob un o'i blant â hi yn y diwedd. A dweud y gwir, chafodd Abraham ddim o'r wlad yn llythrennol; yn hytrach bu'n crwydro ac yn byw mewn pebyll fel dieithryn. Mae Duw yn galw pob un o'i blant i fyw mewn lle, ac ambell dro i fyw mewn llefydd amrywiol. Er nad ydym ni'n llythrennol yn byw mewn pebyll fel crwydriaid, eto, rydym yn gwybod nad dyma'n gwlad. Fel y dywed Iesu, dyna lle mae ein trysor parhaol ni (Mathew 6:20).

Yn ail, mae Duw yn addo gwneud Abraham yn genedl fawr. Wrth dderbyn yr addewid yr oedd Abraham, neu Abram fel y gelwid ef ar y pryd – gair sy'n golygu 'tad wedi ei ddyrchafu', yn ddi-blant. Yn ddiweddarach mae'n derbyn enw newydd, Abraham, enw sy'n golygu 'tad lliaws'. Mewn diwylliant lle'r oedd bod heb blant yn gywilydd, ceir addewid y bydd Duw yn symud y gwarth ac y byddai'n dad i fwy na phlentyn, yn hytrach i genedl. Dyma'r genedl fyddai'n fendith i'r byd, yn cychwyn gydag Israel a'r cenedl-ddynion

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

oedd yn ymuno â hwy, ac yna'r Eglwys. Yn ôl Paul yn Galatiaid 3:7: 'Gwyddoch, gan hynny, am bobl ffydd, mai hwy yw plant Abraham.' Yn ddiweddarach yn y Testament Newydd, yn 1 Ioan 2 mae Ioan yn cyfeirio at y ffordd rydym ni'n 'cael plant' hefyd wrth inni rannu Iesu ag eraill.

Yn drydydd, mae Duw yn addo rhoi enw i Abraham. Yn ddiddorol, yn Genesis 11 yr hyn sy'n digwydd mewn perthynas â thŵr Babel yw awydd pobl i wneud enw iddynt eu hunain (Genesis 11:4). Ond, yn hanes Abraham, nid oes angen iddo ef ddiogelu enw iddo'i hun; mae'n addewid gan Dduw, addewid sy'n cael ei sylweddoli yn Genesis 23:6. Mae'r tentasiwn cyntaf yn y Beibl yn ymwneud â'r awydd i fod fel duwiau, a does fawr wedi newid, gydag ymdrech pobl i sicrhau enw drwy gryfder, cyfoeth, poblogrwydd ac ati. Ond Duw sy'n gwrthwynebu'r balch yw ein Duw ni, Duw sy'n dyrchafu'r isel, yn dweud mai'r addfwyn yw'r etifeddion (Mathew 5:5). Mae'r fendith y mae Abraham yn ei derbyn yn troi dyheadau arferol ben i waered, a dyma'r fendith yr ydym ni'n dyheu amdani: 'Ymddarostyngwch, gan hynny, dan law gadarn Duw, fel y bydd iddo ef eich dyrchafu pan ddaw'r amser' (1 Pedr 5:6).

Yn bedwerydd, mae Duw yn addo y bydd Abraham yn fendith. Yn wir, dyna oedd prif ddiben bendithio Abraham: nid bendith iddo ef ei mwynhau yn ecscliwsif, ond bendith er mwyn bendithio. Dyma'r Duw sy'n ein bendithio, 'er mwyn i ninnau, trwy'r diddanwch a gawn ganddo ef, allu diddanu'r rhai sydd dan bob math o orthrymder' (2 Corintiaid 1:4). Ond, yn fwy penodol i ni, bydd y fendith y mae'n ei derbyn yn fendith i holl bobl y byd. Er bod cenedl-ddynion wedi dod yn rhan o bobl Dduw yn yr Hen Destament, wedi dyfodiad Iesu mae bendith Abraham yn ymestyn i bawb yn ddiwahân. Iesu yw 'had Abraham', yr un had ag y mae Paul yn cyfeirio ato yn Galatiaid 3:16: 'Yn awr, i Abraham y rhoddwyd addewidion y cyfamod, ac i'w had ef. Ni ddywedir, "ac i'th hadau", yn y lluosog, ond, "ac i'th had di", yn yr unigol, a'r un hwnnw yw Crist.'

1. Mae Duw wedi ein galw i le arbennig. A yw wedi ein gwneud yn etifeddion gwlad arbennig? Sut mae byw yn y lle â'n golwg ar y wlad?
2. Pa mor bwysig yw rhannu ffydd i chi os mai trwy ei bobl y mae Duw yn estyn y teulu?
3. Sut fyddwch chi'n osgoi'r awydd i wneud enw i chi eich hunan, neu hyd yn oed enw i'ch eglwys?
4. Pa bedwar peth fedrwch chi ymrwymo i'w gwneud i fod yn fendith i bobl eraill yr wythnos yma?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 23 Hydref am 7.30yh

Bydd Lisa ym Mro Ardudwy yn ymweld ag Eglwys Llandanwg, yr eglwys yn y tywod, a bydd Nia yn sir Fôn yn rhyfeddu at eglwys unigryw



Caniadaeth y Cysegr

Sul, 23 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp

Rhaglen o ganu cynulleidfaol o Gymanfa Salem, Llangennech

Sul, 23 Hydref, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Analyn Davies, Sanclêr

Cyngor Undeb yr Annibynwyr

Cynhaliwyd Cyngor Undeb yr Annibynwyr yng nghanolfan Medrus, Prifysgol Aberystwyth ar ddydd Mercher 12 Hydref. Dyma adroddiadau dwy o'r adrannau lle y bu trafod bywiog a sylweddol.

Adran Dinasyddiaeth Gristnogol

Bwletin Polisi Cytûn (Hydref/Tachwedd 2022) – nodwyd y materion oedd yn ymwneud a chostau byw a'r argyfwng ynni, ac yn arbennig felly Cynllun Lliniaru Biliau Ynni (Llywodraeth y DU 21/09/22) perthnasol i gwsmeriaid annomestig, megis eglwysi.

Bydd Cytûn yn cyfrannu tystiolaeth i adolygiad o'r cynllun, ac yn pwysleisio'r angen am fwy o gymorth i lawer o eglwysi ac adeiladau sy'n eiddo iddynt sy'n darparu gwasanaethau cymunedol hanfodol. Byddai Cytûn yn croesawu enghreifftiau o'r prisiau contract ynni a gynigwyd i eglwysi cyn cyhoeddi'r Cynllun, a sut y mae hyn yn cyfateb i incwm yr eglwys. Byddai disgrifiad o'r defnydd cymunedol o gymorth, a bydd Cytûn yn cyflwyno achos i Lywodraeth Cymru hefyd o'r angen am gymorth. Cysylltwch â gethin@cytun.cymru

Creu Eglwysi Dementia-gyfeillgar

Yn dilyn lansiad y cynllun yng nghyfarfodydd yr Undeb yng Nghaerfyrddin yn gynharach eleni, a

sicrhau bod copi o'r ddogfen *Heulwen dan Gymylau* wedi / i'w dosbarthu i bob eglwys o fewn gofal yr Undeb, cadarnhawyd bod y cyfan o'r deunydd bellach ar gael ar wefan yr Undeb (gan gynnwys fersiwn Saesneg o'r adnodd).

Mae fideo ar gael i'w lawrlwytho a fydd o gymorth i eglwysi i gyflwyno'r cyfan yn hwylus i'w cynulleidfaoedd.

Economi Bywyd a Newid Hinsawdd

Cyflwynwyd braslun o gynnwys yr adnodd gwerthfawr yma, dan y teitl "Bywyd yn ei Gyflawnder", ffrwyth llafur gweithgor dan arweiniad Fiona Gannon (gweler gwefan yr Undeb). Bydd o gymorth i unigolion ac i'r eglwysi wrth ystyried "*Sut mae byw'n dda gyda phobl eraill / gyda'n daear / a gydag arian.*"

Apêl Arbennig yr Undeb / Cymorth Cristnogol 2023

Cafwyd cyflwyniad gan Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru, yn cynnig awgrymiadau am ddewis gwlad a / neu themâu fel ffocws i'r Apêl. Bydd y drafodaeth gyda Cymorth Cristnogol am natur yr Apêl yn parhau dros yr wythnosau nesaf.

Rhodri-Gwynn Jones, Ysgrifennydd



Adran Tystiolaeth

Ymestyn y Dystiolaeth

Cafwyd sesiwn fywiog gyda phawb yn cyfrannu yn rhydd dan gadeiryddiaeth y cadeirydd newydd, y Parchedig Euron Hughes. Rhannwyd cryn lawer o wybodaeth am gyhoeddiadau'r Undeb, gan dynnu sylw at gyhoeddi *Cofiadur* 150 sy'n cynnwys dwy ddarlith, y gyntaf gan Prys Morgan yn olrhain dechreuadau'r Undeb a'r llall gan Geraint Tudur yn crynhoi'r datblygiadau oddi ar 1972 hyd heddiw. Llongyfarchwyd yr Undeb ar gyhoeddi'r hanes hwn a chafwyd gwerthfawrogiad hefyd o waith y tîm bychan diwyd sy'n sicrhau bod *Y Tyst* yn dal i ymddangos. Byddai'r tîm yn croesawu clywed storiâu'r eglwysi, mawr a bach, er mwyn inni ddysgu o brofiadau'r gwahanol eglwysi.

Cafwyd cyflwyniad i'r wefan ar ei newydd wedd a'i chyfoeth o adnoddau. Daw'r wefan yn fwyfwy pwysig wrth i nifer cynyddol ddewis neu orfod defnyddio adnoddau digidol. Yn sgil hynny, codwyd yr angen am hyfforddiant am faterion megis hawlfraint wrth dynnu deunydd i lawr o'r we. Roedd yr Undeb eisoes wedi datblygu hyfforddiant at gyfer gweinidogion ond teimlwyd bod angen cynnig hyfforddiant o'r fath i bawb. Maes arall lle mae galw am hyfforddiant yw podlediadau. Dywedodd swyddogion Tŷ John Penri y byddent yn symud ymlaen ar fater cynnig hyfforddiant â'r we yn 2023.

Bellach y mae cyfres *Y Ffordd* yn gyflawn a diolchwyd i Rhodri Darcy yn arbennig am ei waith yn datblygu'r adnodd gwerthfawr hwn a gwefan yr Undeb. Bydd cyfres o bodlediadau yn cael eu rhyddhau dros y misoedd nesaf o'r enw *Y Cwmni Bach*, sy'n gyfle i glywed unigolion o bob cwr o Gymru yn sgwrsio am eu profiadau hwythau.

Meysydd eraill y cyfeiriwyd atynt oedd yr angen am wirfoddolwyr at wasanaeth y caplaniaid ar faes y Sioe yn Llanellwedd a hefyd i weithio gyda Tir Dewi sydd bellach â swyddog yn y gogledd.

Cyfeiriwyd yn fras at y rhaglen Arloesi a Buddsoddi ac yn drafodaeth honno codwyd yr angen i atgyfodi Panel y Teulu a'r Is-banel Ieuentid er mwyn rhoi llais i'r ieuentid fynegi eu hanghenion wrth i'r Undeb ddatblygu gweithgarwch ar eu cyfer.

Megan Hughes Tomos, Ysgrifennydd

Golygyddol

RHYFEL – ETO FYTH ...

Mae sawl ffactor wedi cyfrannu tuag at y cynnydd aruthrol mewn costau byw, yr argyfwng economaidd brawychus, a'r cwtogi difrifol a



ddaw ar wasanaethau cyhoeddus. Ond y ffactor mwyaf yw'r rhyfel yn Wcráin. Nawr, nid rhywbeth sy'n digwydd mewn gwagle yw rhyfel. Fe ddywedodd y bardd mawr John Milton, 'What can war but endless war still breed?' Ac mae

hynny'n sicr yn wir am y sefyllfa erchyll yn Wcráin.

Gwraidd y drwg

Dewch 'nôl i 2014 – ie, i'r cyfnod bendithiol hwnnw cyn ffolineb Brexit ac arswyd Covid. Yn y flwyddyn honno, fe wnaeth Rwsia feddiannu Crimea – penrhyn mawr (sydd bron yn ynys) sy'n ymwithio i'r Môr Du. Bu brwydro drosto ers canrifoedd lawer. Yng nghanol Heol Awst, Caerfyrddin, mae cofeb gain ar ffurf obelisc i gofio'r cannoedd o filwyr o Gymru a fu farw yn y rhyfel yno yn erbyn Rwsia yn 1853-6 yn dyst i hynny.

Ar ôl chwalu'r Undeb Sofietaidd meddiannwyd Crimea gan Wcráin, ond yn 2014 fe wnaeth lluoedd oedd yn bleidiol i Rwsia ailfeddiannu'r penrhyn. Ymatebodd Unol Daleithiau America a'r Undeb Ewropeaidd trwy gyflwyno sancsiynau yn erbyn Rwsia. I Vladimir Putin, roedd caniatáu i gyn-wladwriaethau Sofietaidd fel Gwlad

Pwyl, Dwyrain yr Almaen, y Wladwriaeth Tsiec ac eraill i ymuno â'r Undeb Ewropeaidd yn ergyd drom i'w freuddwyd o ailgodi Ymerodraeth Rwsia fel y bu yn y dyddiau cynt.

Brexit a Rwsia

Dyna pam roedd yr ymgyrch ym Mhrydain bryd hynny dros adael yr Undeb Ewropeaidd yn fêl ar fysedd Putin. Er mai Nigel Farage oedd wyneb mwyaf cyfarwydd Brexit, y person wnaeth ariannu'r ymgyrch yn fwy nag unrhyw unigolyn arall oedd Aaron Banks, a gyfrannodd tua £9M a sefydlu Leave.EU. Roedd gan Banks gysylltiadau agos â Rwsia, yn enwedig gydag Alexander Yakovenko, Llysgennad y wlad honno ym Mhrydain, a chyfaill agos i Vladimir Putin. O gofio pa mor gymharol agos oedd y bleidlais dros adael yr UE yn Refferendwm 2016, prin y gall neb wadu cyfraniad Banks.

Hefyd, fe roddwyd cyhoedduswydd eang ac unochrog i'r ymgyrch dros Brexit gan yr orsaf deledu RT (Russia Today) sy'n cael ei hariannu'n gyfan gwbl gan y Kremlin. Yn sgil yr ymosodiad ar Wcráin, fe wnaeth nifer fawr o wledydd a chwmnïau fel Microsoft, YouTube ac Apple wahardd RT ar y tonfeddi a gwefannau.

Prydain oedd un o brif wledydd yr Undeb Ewropeaidd, a'r bumed wlad fwyaf pwerus yn y byd. Fe wnaeth Brexit wanhau'r UE, er mawr lawenydd i Putin oedd yn gobeithio (ac sy'n dal i obeithio) y byddai gwledydd eraill yn dilyn.

Croesawu ffoaduriaid

A dyma ni nawr yn wynebu'r gaeaf mwyaf anodd ers blynyddoedd maith. Ond nid yw ein cyflwr ni i'w gymharu â sefyllfa'r 12 miliwn o ffoaduriaid sydd wedi cilio o'u cartrefi yn Wcráin i wledydd eraill Ewrop, gan gynnwys Cymru. Menywod a phlant yw'r mwyafrif llethol ohonynt – pobl sydd wedi gadael eu gwyr, eu meibion a'u tadau ar ôl yn Wcráin i ymladd lluoedd Rwsia.

Mae'n drist cofio mai er mwyn cynorthwyo ffoaduriaid yn Ewrop y sefydlwyd Cymorth Cristnogol gan eglwysi ym Mhrydain ac Iwerddon ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. A dyma ni eto yn wynebu sefyllfa debyg.

Fel Cristnogion, ein baint yw croesawu'r rhai a ddaw i'n cymunedau, wrth weddio'n gyson dros y gweddill yn Wcráin, gan erfyn ar Dduw i blannu doethineb a chymod ym meddyliau'r rhai sy'n dal i weld rhyfel fel yr unig ateb. Dylent ddysgu bod rhyfeloedd heddiw yn magu rhyfeloedd yfory.

Alun Lenny

Gair gan Aled Eglwys Pistyll

Dim ond yn gymharol ddiweddar yr ydwi wedi darganfod eglwys Beuno, Pistyll wrth fynd i berfeddion Penrhyn Llŷn ac ardal Nefyn. Ond mae'r eglwys yn hardd yn ei heirllysiau a'i chennin Pedr, ei heithin a'i chlychau'r gog hefyd ar hen lwybr y pererinion am Enlli. I mi mae'n lle y cawn flas ar fyd lle mae gwyrthiau o fewn cyrraedd. Man lle mae'r llen yn agos rhwng nef a daear, a man lle mae heddwch Duw yn wastad yn aros amdanom. Wastad ar y blaen i ni, rywsut yn rhagdybio ein hymweliad.



Tangnefeddfan

Mae mis Hydref yn fis lle y cawn fynd i leoedd, a gadael i'r manau rheiny siarad efo ni. Bydd y meddwl gwibiog yn cael gorffwyso yn y manau hyn, a dim ond anadliad rywsut sydd rhyngoch chi â Duw. Yn y Pistyll gallwch anghofio am y llwyth o bethau i ddweud wrth Dduw, a

dim ond ymlacio a gadael iddo Fo siarad â chi.

Mae llawer o bethau yn clymu eglwys Pistyll efo iachâd. Roedd Beuno Sant yn enwog fel iachawr, ac aeth yno ar encil o ganolfan Clynnog Fawr. Prin yw'r goleuni oddi mewn i'r eglwys ond fe arferai'r gwahangleifion fynychu torri'r bara yn y Cymun drwy ffenest a enwyd ar eu hôl. Arferid cael dwy hosbis ar y safle – un ar gyfer y gwahangleifion ar y bryn gerllaw, ac un er mwyn i'r pererinion gael seibiant.

Er gwaethaf newidiadau ein byd ni, mae awyrgylch arbennig yn dal yno ar lan y dyfroedd bywiol, ac yn yr eglwys â'i garped dan draed o berlyisiau. O fodloni ar y tawelwch yma, rydym yn cael ein

hailarfogi ar gyfer y daith, ac mewn ffordd yn derbyn iachâd. Derbyn, ddim oherwydd yr hyn a ddywedwyd gennym ni, ond yn syml am i ni ddod yno i gadw'r oed, a neilltuo amser i dderbyn – cyn meddwl eto am roi a chyfrannu.

Yn y Pistyll medrwch fod yn eistedd am amser hir yn derbyn o'i dangnefedd, gan fod rhywun rywsut yn camu dros y ffin â'r diamser, ac yn cyffwrdd

tragwyddoldeb. Gadael i Dduw siarad efo ni yn y tawelwch cyforiog hwnnw, sy'n cydio ein doe, heddiw ac yfory. Dyma'r feddyginiaeth sydd ar gael yn eglwys Pistyll.

Aled Lewis Evans

(Allan o *Shalom*, misolyn Capel y Groes Ebeneser, Wrecsam rhif 494, Hydref 2022)

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

'Galwad i Weithredu gyda'n Gilydd': neges Cyngor Eglwysí'r Byd yn ei 11eg Cynulliad yn Karlsruhe, yr Almaen

Mae pob cynulliad o Gyngor Eglwysí'r Byd wedi rhyddhau neges yn mynegi profiad y cynulliad a natur ysbrydoledig ei waith. Rydym ni'n cynnig y neges hon i'w darllen ymhob cynulleidfa o'n heglwysí perthynol ni ac i'w chyhoeddi drwy bob un o gyfryngau'r eglwys. Gobeithiwn y caiff y neges hon ei chyfieithu'n helaeth a'i defnyddio. Byddai'n dda ei gweld yn cael ei thrafod a'i dadansoddi, yn rhywbeth i fyfyrío a gweddío drosti, mae'n cynrychioli trafodaethau a gweddïau dros 4,000 o bobl a fu'n rhan o'r cynulliad, wrth i ni chwilio am yr undod y mae Crist yn ei gynnig. Ymddiriedwn y neges hon i chi yn awr, gan ofyn i chi ei throsglwyddo i bob Cristion a phobl o ewyllys dda, fel y medrwn, gyda'n gilydd uno i ddarganfod sut y mae cariad Crist yn symud y byd at gymod ac undod.



Galwad i Weithredu gyda'n Gilydd

'Cariad y Meseia sy'n ein gyrru ni'n ein blaenau.'
(2 Cor. 5:14, beibl.net)

'Dewch, dilynwch fi!'

- O'r amser y bu ar y ddaear, a hyd yn oed yn yr amser presennol hwn, y mae Iesu'n parhau i gyfeirio'r geiriau hyn at bob un o'r ddynol ryw. Y mae bywyd Iesu, ei eiriau a'i weithredoedd yn wahoddiad digyfnewid i symud – o un man i fan arall, o un grŵp o bobl at un arall, o un ffordd o feddwl at un arall. Uwchlaw hyn oll, yng nghanol problemau'r byd, mae Iesu'n ein galw ni i ddod ato i fyw yn ei gariad, cariad sy'n cael ei gynnig ar gyfer y byd cyfan. (gw. Math. 11:28).
- Mae llyfr olaf y Beibl, Datguddiad, yn siarad am rymoedd hynafol dioddefaint dynol ar waith yn y byd: rhyfel, marwolaeth, clefyd a newyn. Wrth i Gyngor Eglwysí'r Byd gynnwll yn Karlsruhe yn 2022, roeddem ni'n ymwybodol o ymddangosiad yr holl bethau hyn yn y byd heddiw. Yn eu sgil daw anghyfiawnder a rhagfarn, lle mae'r rhai sydd â phŵer yn aml yn ei ddefnyddio i ormesu eraill yn hytrach nag i adeiladu cynhwysiant, cyfiawnder a heddwech.
- Mae unigolion, pobloedd, a gwledydd hefyd yn wynebu trychinebau sy'n codi'n uniongyrchol o berthynas anghyfrifol a maluriedig gyda'r cread, a arweiniodd at anghyfiawnder amgylcheddol ac argyfwng hinsawdd. Wrth i argyfwng yr hinsawdd ddwysáu, felly hefyd y mae'r cynnydd yn nioddefaint y tlodion a'r rhai a wthiwyd i'r cyrion.
- Er hyn wrth i ni barhau ein pererindod gyda'n gilydd fel cynulliad o Gyngor Eglwysí'r Byd, y mae ein hwyl yn un o ddisgwyliad a gobaith, a llawenydd hyd yn oed, oherwydd drwy rym yr Ysbryd Glân, y mae gwahoddiad Crist yn aros yn agored i bawb, yn wir i'r holl cread.

- 'Mae cariad Crist yn arwain y byd at gymod ac at undod.' Y mae'r cariad hwn, mewn ateb i gri'r rhai sy'n dioddef, yn ein cymell ni i ddod ato mewn undod ac ymateb a gweithredu er lles cyfiawnder. Cawn ein galw i gymodi â chariad Duw, ac i dystio i'r cariad a ddangoswyd yng Nghrist (1 Ioan 4:9–11).
- Mae cymodi yn symudiad tuag at Dduw a thuag at ein gilydd. Mae'n golygu parodrwydd i wrando ar Dduw ac ar ein gilydd. Dyma drawsnewidiad y galon, o hunanoldeb a difaterwch i gynhwysiant a gwasanaethu, gan gydnabod ein cyd-ddibyniaeth ar y cread. Cyfaddefwn, er ein bod ni'n dymuno â'n holl galonau i wasanaethu Duw a'n cymydog, ein bod ni'n canfod ein hunain yn methu, yn anghytuno ac weithiau'n cerdded i'r cyfeiriad arall. Cyfaddefwn fod angen pŵer trawsnewidiol cariad Crist i symud at fyd ble mae gwir gymod ac undod.
- Y mae Cristnogion, a'r strwythurau a adeiladwyd gennym ni, wedi bod yn gyfrannog yng nghamdriniaeth eraill, a rhaid i ni edifarhau ac ymuno yn y symudiad hwn tuag at gymod. Yn wyneb rhyfel, anghydraddoldeb, a phechodau yn erbyn y greadigaeth heddiw, y mae cariad Crist yn ein galw ni oll at edifeirwch, cymod a chyfiawnder.

Bydd ail ran y datganiad hwn yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.

